

MEWN ERTHYGL fer nid oes gofod i fynd ar ôl holl waith Thomas Stephens (1821-1875) y gŵr arbennig hwn o Ferthyr Tudful. Mae fy niolch i'm mam am sôn wrthyf amdano ac am awgrymu oni allwn wneud ymchwil arno ar gyfer gradd M.A. Prifysgol Cymru. Busasai'r llyfr *The Literature of the Kymry* yng nghwprdd llyfrau ei thad, William Havar, ffermwr o Gymro diwylleiddig, Annibynnwr a Rhyddfrydwr, gŵr a gâi bhar mawr yn ei fro enedigol Defynnog a Chwm Senni, yn yr hen Sir Frycheiniog.

Felly, pan es at yr athro W.J. Gruffydd fe fentrais ofyn iddo a gawn wneud fy ymchwil ar Thomas Stephens a'i waith. Ei ymateb oedd y cawn, dim ond i mi ei ystyried yng nghefndir ehangach Cymdeithas Cymreigyddion y Fenni. A phriodol iawn yw dweud am hynny yn Y Casglwr yn rhifyn Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd, Gwent.

Yn 1848 prif gystadlueaeth eisteddfod olaf ond un y Gymdeithas honno oedd traethawd ar hanes llên Cymru yn ystod y ddeuddegfed ganrif a'r ddwy ddilynol. Rhaid oedd cynnwys ynddo enghreifftiau o farddoniaeth y cyfnod ynghyd â chyfieithiadau Saesneg ohonynt. Rhoddwr y wobr o 25 gini ydoedd heb llai na'r Frenhines Victoria, yn enw'i mab hynaf, Tywysog Cymru.

Cafwyd gŵr cymwys dros ben i feirniadu, sef John Williams, Archddiacon Ceredigion, a phrifathro cyntaf Ysgol Llanymddyfri a sefydlwyd yn 1848. Canmolodd draethawd Stephens i'r entrychion gan ei alw'n "triumph of genius". Pwysleisiodd y dylid ei gyhoeddi ar unwaith.

Diolch i haelioni Josiah John Guest ymddangosodd yn llyfr swmpus yn 1849 wedi ei argraffu gan wasg ardderchog William Rees, Llanymddyfri, a'i gyhoeddi ganddi hi a Longmans a'i Gwmni, Llundain. Dyma'r gwaith pwysicaf a gysylltir â Chymreigyddion y Fenni, a dyma'r unig waith gan Stephens a gyhoeddwyd yn ei ddydd ef.

BU CYFFRO mawr ym myd ysgolheictod Cymraeg o ganlyniad. Daeth yr awdur i fri mewn llychoedd ehangach na Chymru a Lloegr, yn arbennig yn Ffrainc a'r Almaen ac mor bell ag Awstralia a'r Unol Daleithiau.

Cafodd Stephens ei gydnabod yn awdurdod ar hanes cyfnod ei lyfr a'i osod ar ei ben ei hun ymysg ysgolheigion y ganrif ddiwethaf. Rhoes Cymreigyddion y Fenni ei gyfle iddo ac ymaflodd ef ynddo â'i holl egni meddyliol.

Gŵr ifanc saith ar hugain oed ydoedd heb gael manteision addysg prifysgol, fferylllydd ym

MAIR ELVET THOMAS ar THOMAS STEPHENS - fe ddrylliodd y delwau

Merthyr Tudful. Aethai yno yn 1835 yn brentis i fab Shencyn Morgan, gweinidog yr achos Undodaidd ym Mhontneddfechan. Yr oedd bryd hwnnw yn ddarllenwr mawr a chafodd bob anogaeth gan ei feistr.

Cyn iddo gyrraedd 21 oed fe fedrodd brynu'r busnes. Ymddiddorodd Taliesin ab Iolo ynddo a chyn bo hir dechreuodd ysgrifennu i'r wasg leol ar bynciau hanesyddol, hynafiaethol a llenyddol. Eisoes yr oedd ganddo lawer o deithi'r hanesydd beirniadol, gwyddonol.

Y mae ei ragair i'w lyfr yn dra phwysig am ei fod yn dangos ei agwedd at ysgolheictod Cymreig cyn ei ddyddiau ef. Credai y dylid anelu'r llyfr "more particularly" i ddarllenwyr o Saeson. Ac â ymlaen i ddweud paham.

"This is the way in which the Kymry can best serve their country, as the preponderance of England is so great, that the only hope of obtaining attention to the just claims of the Principality, is by appealing to the convictions and sympathies of the reading part of the English Population. It is full time for some of us to do this ... that they may no longer be ignorant of our real literary worth".

Mewn lle arall yn ei lyfr dywed "our writers have done the Literature of Wales a great deal of harm by their indiscriminate zeal and want of critical sagacity."

ac eto
"Readers! Be attentive to what I am about to write, and keep a watchful eye upon the sentences as they rise before you; for the daring spirit of modern criticism, is about to lay violent hands upon the old household furniture of venerable tradition".

Torrwr delwau ydoedd ef ac enynnodd gasineb a lliid y ffug ysgolheigion. Bu ef ei hun wrthi'n gwyntyllu ac yn dadansoddi'n wyddonol y deunydd oedd wrth law ar ôl darllen yn ofalus ac yn bwyllog. Hyd y gallai yr oedd yn ddiragfarn ac yn gwbl onest. Ni allodd brofi i Madog ab Owain Gwynedd ddarganfod America a thynnodd lid Ab Ithel a'i ddilynwyr am ei ben. Ond wedi i Gymreigyddion y Fenni ddod i ben y digwyddodd hynny. Ni allodd Thomas Stephens fod yn anonest. Yn anad neb arall ef yw arloesydd a dehonglydd ysgolheictod gwyddonol yng

Nghymru. Defnyddiodd Syr J.E. Lloyd ei lyfr i'w gynorthwyo i ysgrifennu ei *History Of Wales* (1912). Canai'r Gogynfeirdd i'w harglwyddi yn eu dydd ac o'r herwydd y mae eu gwaith o werth hanesyddol a chwilio a wnâi Stephens am yr hanes hwnnw. Daeth i gasgliadau a ddaliodd hyd y ganrif hon. Dyma eiriau'r Dr. Thomas Parry amdano yn ei *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg* hyd 1900 (1944)

"Yr oedd Stephens, ym mhopeth a ysgrifennodd, ymhell ar y blaen i neb a fu'n trafod hanes llenyddiaeth yn y ganrif". (sef y ganrif ddiwethaf).

Yn ei argraffiad o *Lyfr Du Caerfyrddin* (1907) gwelir hyn gan J. Gwenogfryn Evans,

"Stephens in his Literature of the Kymry was the first to introduce sanity into Welsh Criticism and his book, if somewhat out of date, is still worth reading."

Cryfder Stephens yw ei ddadansoddiadau hanesyddol am y tair canrif yn ei lyfr. Ei wendid yw ei ddamcaniaethau am yr iaith. Ni dderbyniodd *The Eastern Origin of the Celtic Nations* (1831) J. Cowles Pritchard; ceir ef yn dilyn rhyfedd ddamcaniaethau William Owen Pughe a dweud - "The language of the Kymry is rich in native roots"

a
"...the Kymraeg is an original language".

Nid yw'n hapus wrth gyfieithu gwaith y beirdd ei hun. Mewn llythyr at ei gyfaill yr hynafgwr Gwallter Mechain y mae'n cyfaddef ei anhawster i ychwanegu nodiadau eglurhaol i'w gyfieithiadau. Pan fydd yn defnyddio cyfieithiadau awduron eraill y mae bob amser yn cyfaddef hynny.

YN EISTEDDFOD olaf Cymreigyddion y Fenni yn 1853 cystadlodd ar bum cynhyrchiad ac ennill y wobr ar bob un oddieithr ei gyfieithiad o'r *Gododdin*. Golygodd Thomas Powel ef yn 1888 gydag ychwanegiadau o'i eiddo'i hun. Ond pwysleisiodd mai'r adran hanesyddol oedd orau a bod Stephens genhedlaeth o flaen ei amser yn ei ragymadrodd.

Gwaith mawr a gystadlodd arno'r un flwyddyn oedd traethawd maith ar *Trial by Jury*. Torrodd dir newydd trwy brofi, gyda chymorth testunau Cymraeg, mai trwy gyfrwng cyfreithiau'r Cymry y

mabwysiadodd y Saeson brawf trwy reithwyr. Mewn cystadleuaeth arall cyhoedda na all greu chwedl Cantre'r Gwaelod.

Dechreuodd gystadlu yn eisteddfodau'r Fenni nôl yn 1849 yn bedair ar bymtheg oed. Yn Saesneg y mae'r rhan fwyaf o'i gynhyrchiion. Ond pan fydd yn defnyddio'r Gymraeg y mae ei waith yn rhedeg yn esmwyth o'i gymharu â'r rhan fwyaf o gynhyrchiion rhyddiaith y ganrif. Dyma enghreifftiau:

Yn 1845, mewn traethawd ar "Arwydd Farddoniaeth Cymru" dangosodd ddiddordeb arbennig yn Iolo Goch a Gruffydd Llwyd, a dyma'i eiriau olaf amdanynt

"... hawdd gallwn ninnau wrth ddarllen barddoniaeth mor odidog chwerthin am ben cecraeth Sais, ac ymfalchïo fel cenedl fod gennym drysorau mor werthfawr."

Gellir synhwyro'i wefr pan ddaw ar draws llinellau yng ngweithiau'r beirdd sydd yn apelio ato, e.e.

"pan gaffom gan hynny ddarn o waith campus dylem ei brisio yn fawr, a'i goleddu fel trysor gwerthfawr."

Gresyn nad argraffwyd traethawd ganddo yn y fath Gymraeg rhywiog.

AR WERTH

Y llyfrau canlynol o 'Gyfras Pobun' (Golygydd: E Tegla Davies; Argraffwyd a Chyhoeddwyd gan Hugh Evans a'i Feibion Cyf.). Hefyd rhai llyfrau Saesneg:
Cymru Ddoe: A.H. Williams; Addysg: W. Moses Williams; Y Wasg Gymraeg: E. Morgan Humphreys; Glo: James Griffiths; Enwau Lleoedd: Ifor Williams; Llywodraeth Leol: Edgar L. Chappell; Cerddoriaeth yng Nghymru: Idris Lewis; Llenyddiaeth Cymraeg 1900-1945: Tom Parry; Iechyd yng Nghymru: T. Trefor Jones; Diwydiant a Masnach: D.J. Davies; Celfyddyd a Chrefft yng Nghymru: Llywelyn ap Gwynn; Crefydd yng Nghymru: Parchedig J.M. Griffiths; Y Ddrama yng Nghymru: Elsbeth Evans; Crefydd a'r Gymdeithas Newydd: Oswald R. Davies; Amaethyddiaeth: Moses Griffiths; Llenyddiaeth: Ifor Williams; The Book of North Wales: (1850) Charles Frederick Cliffe; Trout and Salmon Fishing in Wales: (1834) G.A. Hansard; The Angler in Wales: (1834) Thomas Medwin;

Hywel Edwards, Cwm Isa, Glyndyfrdwy, Corwen. Ffôn: 049 083 682